Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pum Heol
# Neuadd Gymuned Pum Heol
# Pum Heol
# Llanelli
# SA14 9GD

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Pum Heol yn neuadd gymuned pentref Pum Heol gerllaw Llanelli.  Fe'i agorwyd ym mis Mai 1996.  Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Plant 1989 a chaiff ei gynnal yn unol â chanllawiau cydnabyddedig Mudiad Meithrin.  Rheolir y lleoliad gan Bwyllgor Rheoli.

Caiff yr adeilad ei ddefnyddio gan nifer o fudiadau gwahanol.  Mae hyn yn golygu bod angen i'r staff osod yr offer allan ar ddechrau pob sesiwn a'i roi heibio ar y diwedd.  Lleolir y neuadd mewn tir agored sydd â mynediad rhydd i'r cyhoedd bob amser.

Mae'r cylch yn darparu gofal ar gyfer plant o'r gymuned leol a'r ardaloedd o'i chwmpas ar bum bore'r wythnos a chynhelir y sesiynau rhwng 9.00 a 12.00 yn ystod tymhorau ysgol.  Mae'r cylch yn derbyn plant o ddwy flwydd oed i fyny ac maent yn gadael pan fyddant yn dechrau eu haddysg statudol yn Ysgol Gynradd Pum Heol neu mewn ysgolion eraill yn y sir.  Mae croeso yn y lleoliad i ddisgyblion ethnig.  Mae'r ardal yn un nad yw'n freintiedig nac ychwaith yn ddifreintiedig.

Cymraeg yw iaith y cylch. Roedd tri ar ddeg o blant wedi eu cofrestru adeg yr arolygiad ac roedd tri ohonynt yn cael eu hariannu.  Daw pedwar o blant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn famiaith a naw o gartrefi Saesneg eu hiaith.  Adeg yr arolygiad, nid oedd yno'r un plentyn wedi'i nodi ag anghenion addysg ychwanegol.  Caiff dau ymarferwr eu cyflogi a gweithiant gyda'r plant.  Roedd arolygiad diwethaf Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar 26 Mai, 2012.  Arolygwyd y lleoliad gan Estyn yn Chwefror 2007.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- mae cyflawniadau a chynnydd y plant yn dda o'u man cychwyn;
- mae'r plant yn teimlo'n hapus a diogel;
- mae'r profiadau dysgu'n cynnal diddordeb y plant;
- mae safon yr addysgu'n gyson dda;
- asesu drwy arsylwi a'r defnydd effeithiol a wneir o hyn i gynllunio'r camau nesaf, a'r
- gwaith tîm effeithiol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda oherwydd:

- mae diwylliant o fyfyrio proffesiynol yn bodoli sydd wedi ei seilio ar hunanarfarnu;
- safon dda'r arweinyddiaeth, ac
- ymrwymiad y lleoliad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

## Argymhellion

A1 Diweddaru hyfforddiant staff mewn Amddiffyn Plant

A2 Ymestyn y defnydd o'r ardal tu allan i symbylu dysgu'r plant

A3 Mireinio'r ddogfen hunanarfarnu er mwyn ffocysu'n gliriach ar y prif feysydd i'w gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn cynhyrchu cynllun gweithredu i nodi sut y caiff yr argymhellion hyn eu cyflawni.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae safon y cynllunio'n dda. Cyn cynllunio mae'r ymarferwyr yn gwerthuso darpariaeth a chanlyniadau'r wythnos. Maent yn trafod cyraeddiadau, cynnydd ac anghenion pob plentyn ac yn ystyried yr asesiadau drwy arsylwi a wneir. Maent yn cynnwys y plant yn y cynllunio trwy ofyn iddynt am eu diddordebau a beth maent yn hoffi gwneud; mae hon yn nodwedd dda. Maent yn defnyddio'n dda'r holl wybodaeth hon i fwydo'r cylch nesaf o ddarpariaeth; o ganlyniad, mae'r cynllunio yn ymateb yn dda i ddiddordebau ac anghenion y plant. Cynllunnir ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a gweithredol sydd yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio'n hyblyg a gwelwyd yr ymarferwyr yn ei addasu i gwrdd â diddordebau'r plant. Mae'r oedolion yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordebau'r plant yn dda ac mewn ffordd sydd yn ystyrlon iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i'r plant ddatblygu'n ddysgwyr brwdfrydig, hyderus ac annibynnol ac i ddatblygu medrau creadigol, corfforol, ieithyddol a mathemategol da. Maent yn hyrwyddo datblygiad medrau creadigol da drwy ddarparu cyfleoedd i baentio lluniau gwreiddiol o'u harsylwadau. Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd da i archwilio'u hamgylchedd naturiol drwy archwilio yn yr eira, arsylwi'r adar a phlannu a thyfu blodau. Maent yn dysgu am ddatblygiad cynaliadwy trwy roi ar wahân bwyd gwastraff ac ailgylchu cardfwrdd a thrwy ddiffodd y goleuadau.

Drwy ymwneud â'u profiadau diddorol a chydweithio o fewn cymuned ddysgu glos y lleoliad, caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu perthynas gadarn gydag eraill. Dangosant barch a goddefgarwch at bawb gan gynnwys pobl o gefndiroedd diwylliannol eraill.

Mae'r plant yn cael model naturiol o'r iaith Gymraeg a chânt eu hannog gan yr ymarferwyr i ymestyn eu hiaith trwy adrodd rhigymau, caneuon a chlywed ac ymateb i straeon sydd yn cynnwys iaith ddiddorol a geirfa eang.

Maent yn dathlu diwylliant Cymreig mewn ystod o ffyrdd gan gynnwys cynnal cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi a thrwy ymweld â llefydd yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r thema, er enghraifft, Safle Natur Penclacwydd.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am ddatblygiad plentyn a datblygiadau cyfoes yn y maes ac mae hyn yn rhoi sail dda a chyfeiriad i'r ddarpariaeth. Maent yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn yn ôl ei gyfnod datblygu. Mae ymddygiad yn cael ei reoli mewn ffordd sensitif a chadarnhaol iawn ac o ganlyniad mae'r plant yn dysgu tueddfrydau gydol oes gan gynnwys pwysigrwydd dangos parch, sensitifrwydd a charedigrwydd tuag at eraill.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod eang o strategaethau dysgu diddorol i symbylu'r plant yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd da o gwestiynau pen agored i ymestyn dysgu'r plant a'u medrau meddwl ac mae hyblygrwydd yr addysgu yn cwrdd ag anghenion unigol y plant yn dda. Caiff y plant gyfleoedd da i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu a hyrwydda hyn yn dda eu hannibyniaeth a hunan hyder.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi digon o amser i'r plant ymgolli yn eu profiadau dysgu, er enghraifft, wrth fynd allan i gerdded yn yr eira, ac nid ydynt yn ymyrryd oni bai bod cyfle i ymestyn y dysgu. Er bod y staff yn mynd â'r plant tu allan cymaint â phosibl i'w symbylu, nid yw'r ardal yn hollol ddiogel ac mae hyn yn cwtogi ar gyfleoedd i ymestyn profiadau'r plant. O ganlyniad, mae'r defnydd o'r tu allan i ychwanegu at addysgu'r plant yn danddatblygedig.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod a deall y plant yn dda iawn. Maent yn asesu drwy arsylwi ar y plant wrth eu profiadau dysgu gan nodi pethau arwyddocaol a thrafod eu canfyddiadau gyda'i gilydd. Mae'r ymarferwyr yn bwydo'r wybodaeth a gasglwyd i mewn i'r cylch nesaf o gynllunio; gwelir effaith y wybodaeth hon yn y ddarpariaeth dda. Maent yn cadw cofnodion parhaus o gyraeddiadau'r plant sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a thrylwyr sydd yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad pob plentyn. Caiff cynnydd y plant ei fesur yn gyson ymhob maes dysgu ac mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i gwrdd ag anghenion a diddordebau'r plant yn dda. Mae'r rhieni yn derbyn adroddiad defnyddiol am eu plant pan fyddant yn gadael i fynd i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr wedi creu awyrgylch cartrefol yn y lleoliad ac mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus a hapus iawn. Caiff pob plentyn ei werthfawrogi ac mae'r ymarferwyr yn dangos parch tuag at eu syniadau a'u diddordebau.

Maent yn datblygu yn dda ymwybyddiaeth y plant o'r pwysigrwydd o fwyta'n iach ac o gadw'n heini. Caiff chwilfrydedd y plant am eu bywydau a chredoau eu hunain a phlant eraill ei ddatblygu'n dda drwy ddathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd, trafod doliau Persona a thrwy straeon. Mae'r plant yn dweud gweddi cyn byrbryd a chyn mynd tuag adref. Maent yn datblygu synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas drwy'r cyfleoedd y maent yn cael i archwilio yn yr eira ac arsylwi ar yr adar tu allan a'u bwydo.

Mae'r oedolion yn meithrin y moesau hynny y maent yn credu sydd yn angenrheidiol i ddatblygiad pob plentyn. Mae'r plant yn dysgu am bwysigrwydd tegwch, gonestrwydd a gwirionedd trwy ddilyn esiampl bersonol y staff a thrwy eu harweiniad

cadarnhaol. Mae'r ddarpariaeth yn galluogi'r plant i gymdeithasu'n dda, cymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd a datblygu dealltwriaeth dda o fyw a rhannu yn eu cymuned fach. Caiff y plant gyfleoedd cyson i wneud penderfyniadau a mwynhânt bob gweithgaredd a gynigir iddynt.

Mae'r trefniadau effeithiol sy'n bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad a lles cyffredinol ac yn cefnogi eu dysgu. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol ar gyfer diogelu plant ac mae'r staff yn ymwybodol ohono ac yn gwybod yn dda'r camau i'w cymryd. Er bod y staff wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant yn eu swyddi blaenorol, nid ydynt eto wedi derbyn yr hyfforddiant yn eu swyddi presennol. Serch hynny, mae'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer diogelu'n weithredol ac yn bodloni rheoliadau diogelu ac yn sicrhau diogelwch plant bob amser. Nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i gofrestru adeg yr arolygiad ond mae trefniadau priodol yn eu lle i nodi anghenion plant o'r fath ac mae'r ymarferwyr yn gwybod yn dda sut i ymateb iddynt os bydd yr angen yn codi.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes a chynhwysol yn bodoli yn y lleoliad. Mae'r oedolion yn dangos hoffter a charedigrwydd mawr tuag at bob un a chaiff pob plentyn ei werthfawrogi. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u hanghenion a diddordebau yn dda ac ymatebant i'r rhain gan ddefnyddio eu gwybodaeth dda o gefndiroedd y plant. Mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i bob agwedd ar y cwricwlwm ac mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. O ganlyniad i'r hoffter a pharch at y plentyn a'r safonau moesol a ddangosir gan y staff, datblyga'r plant oddefgarwch, agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac ymddygiad da iawn. Mae'r plant yn dangos diddordeb mewn a charedigrwydd tuag at eu cymheiriaid, yr oedolion ac ymwelwyr.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r Cylch yn cael ei gynnal mewn ystafell fawr, sef prif ystafell y neuadd gymuned. Mae'r ystafell yn cael ei defnyddio gan fudiadau eraill. Mae hyn yn golygu bod angen i'r staff osod yr offer allan ar ddechrau pob sesiwn a'i roi heibio ar y diwedd. Lleolir y neuadd mewn tir agored sydd â mynediad rhydd i'r cyhoedd bob amser. O ganlyniad i hyn, nid yw'r ardal tu allan yn hollol ddiogel.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau cadarnhaol i ddelio â phroblemau ymddygiad gormesol, hyrwyddo cyfle cyfartal a hawliau dynol sy'n hysbys i bawb. Caiff y rhain eu monitro a'u gweithredu'n effeithiol. Cofrestrir y cylch gan y AGGCC ac nid oedd unrhyw argymhellion yn yr adroddiad diwethaf.

Mae'r gymhareb oedolion i blant yn dda a medda'r staff ar gymwysterau addas a'r arweinyddes ar brofiad gwerthfawr. Mae'r staff yn mynd i'r afael â gofynion fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus a derbynia'r plant brofiadau diddorol sydd yn ymateb yn dda i'w diddordebau a'u cyfnod datblygu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinyddes yn rhoi cyfarwyddyd clir a phendant i holl fywyd y lleoliad a'r broses o welliant ac mae'n llwyddo creu ethos cadarnhaol a hapus. Mae hi'n cydweithio'n dda gyda'r ymarferwyr ac maent yn rhannu egwyddorion ac amcanion clir sydd wedi'u seilio ar wybodaeth o ddatblygiad plentyn. Gwelir y rhain yn cael ei gweithredu trwy'r profiadau dysgu gweithredol a gaiff y plant. Fe'u gwelwyd hefyd yn y cyfleoedd a roddir iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, magu hunanhyder ac annibyniaeth ac i wneud cynnydd da.

Mae'r ddwy yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol gan ddangos ymrwymiad cadarn i'w rôl er lles y plant. Maent yn cydweithio wrth gynllunio'n strategol ar gyfer dyfodol y lleoliad. Mae'r arweinyddes yn rhannu'r gwerthoedd, nodau ac amcanion y mae hi am eu hyrwyddo drwy esiampl bersonol a thrwy drafodaeth cyson. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o'u hunan, o'r staff ac o'r plant yn ogystal â thargedau sy'n sicrhau safonau da o gyflawniad. Caiff cynnydd tuag at eu cyflawni ei fonitro'n gyson.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymwybodol o bob peth sydd yn digwydd yn y lleoliad ac maent yn deall a chyflawni eu rolau'n effeithiol. Maent yn gwybod yn dda am berfformiad y lleoliad a defnyddiant wybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau effeithiol. Maent yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol yn llawn. Mae'r arweinwyr yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ôl gofynion y Cynulliad a'r awdurdod, er enghraifft, gofynion y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'i hunanarfarnu i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arwain at strategaethau ar gyfer gwella sydd yn sicrhau manteision cadarnhaol i bob plentyn. Mae'r arweinyddes yn ymgynghori gyda'r staff, rhieni a gofalwyr i fwydo'r hunanarfarnu. Mae'n defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir oddi wrth y rhieni i gywain barnau ac adnabod meysydd i'w datblygu.

Mae'n gwneud defnydd effeithiol hefyd o gefnogaeth athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod Lleol ac mae'r staff yn gweithredu ei hargymhellion yn effeithiol.

Yn sgil y broses hunanarfarnu, cynhyrchwyd cynllun gwella lleoliad sydd yn dangos ymwybyddiaeth dda o berfformiad y lleoliad ac sydd, ar y cyfan, yn canolbwyntio ar godi safonau trwy osod targedau i wella'r ddarpariaeth. Serch hynny, mae'n cynnwys ambell darged nad yw'n gwbl berthnasol i hyn.

Mae'r ymarferwyr yn cael cyfweliad blynyddol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli neu'r arweinyddes i reoli perfformiad ac adnabod anghenion datblygiad proffesiynol. Maent yn mynychu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn gyson er mwyn datblygu dulliau newydd o addysgu. Gwelir effaith gadarnhaol o hyn ar addysgu a lles y plant wrth iddynt weithredu'r hyn y maent wedi dysgu. Mae'r arweinyddes wedi ymweld â lleoliad arall i weld arfer dda ac mae'r staff yn mynychu cyfarfodydd hyfforddiant gydag ymarferwyr eraill wedi'u trefnu gan yr awdurdod lleol i drafod datblygiadau cyfoes.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn cydweithio’n dda gydag eraill i gyflwyno profiadau dysgu. Mae’r arweinyddes yn gweithio yn agos ac effeithiol iawn gydag athrawes ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr awdurdod lleol. Mae canlyniadau cadarnhaol o’r bartneriaeth hon i’w gweld yn y gwelliannau yn y ddarpariaeth a safonau.

Mae’r lleoliad yn gweithio’n agos gyda'r rhanddeiliaid, yn enwedig y rhieni, ac maent yn barod iawn i ymgynghori ac i dderbyn awgrymiadau ganddynt. Mae partneriaeth dda gyda’r ysgol hefyd sy’n hyrwyddo trosglwyddiad y plant pan fyddant yn gadael.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ymarferwyr yn cael eu lleoli’n dda er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o’u harbenigedd a sicrhau darpariaeth dda. Mae’r staff yn defnyddio adnoddau y tu fewn yn effeithiol er mwyn darparu profiadau diddorol i’r plant. Maent yn mesur effaith yr adnoddau ar y dysgu a’r addysgu ac yn cynllunio ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol. Maent yn defnyddio’r awyr agored cymaint â phosibl i ddatblygu medrau’r plant ymhob maes dysgu ond tanddatblygedig yw hyn am resymau diogelwch.

Gwna’r arweinwyr y defnydd gorau o adnoddau’r lleoliad ac o’r cyllid i gynnig y ddarpariaeth orau. Mae’r lleoliad yn blaenoriaethu ei wariant i ymateb i’w dargedau ar gyfer gwelliant. Mae penderfyniadau ariannol yn cael eu gwerthuso gan y pwyllgor rheoli er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol wrth godi safonau. Mae’r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae pob plentyn yn gyfforddus wrth siarad gydag ymwelydd a dywedant eu bod yn hapus iawn yn y cylch. Maent yn sôn am eu ffrindiau ac yn dweud eu bod yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn anhapus neu'n gofidio am rywbeth.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Branwen Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |